**Pwyllgor Rhanbarth y Gogledd NWR 05-00(p1)**

**Dyddiad:** Dydd Gwener 14 Gorffennaf 2000
**Amser:** 10.00am hyd 1.00pm
**Lleoliad:** Neuadd y Dref, Dinbych

**Blaenraglen Waith**

**Diben**

1. Gofynnir i'r Pwyllgor gytuno ar ei flaenraglen waith ar gyfer tymor yr hydref. Mae'r cyfarfodydd wedi eu trefnu ar gyfer 27 Hydref ac 8 Rhagfyr.

**Pynciau i'w hystyried**

2. Gwahoddwyd Pwyllgor y Gogledd i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad ar fenter Rhoi Cymunedau'n Gyntaf (ym mis Hydref) ac ystyried datblygiad Rhaglen Gwella Iechyd yr Awdurdod Iechyd.

3. Derbyniwyd nifer o awgrymiadau gan Aelodau unigol o'r Pwyllgor gan gynnwys datblygu strategaeth ranbarthol ar gyfer awtistiaeth, ystyried Amcan 1 ymhellach, adsefydlu preswylwyr ag anawsterau dysgu wrth iddynt adael yr ysbyty, y cynllun grantiau gwledig a phroblem tai amlddeiliad. Mae Tom Middlehurst wedi argymell nifer o leoliadau a phynciau sy'n berthynol i weithgareddau chwaraeon a diwylliannol yn y Gogledd.

**Adolygiadau'r pwyllgorau pwnc**

4. Efallai y bydd y Pwyllgor hefyd yn dymuno cysylltu ei waith ag adolygiadau polisi'r pwyllgorau pwnc. Mae'r rhain yn cynnwys:

| | |
|---|---|
| Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | Adolygiadau posibl<br><br>• telefeddygaeth<br>• fflworeiddio dr |
| Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig | • hybu economi wledig gryfach a mwy amrywiol |

| | |
|---|---|
| Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth | • cludiant cyhoeddus |
| Y Pwyllgor Addysg Cyn 16 oed, Ysgolion ac Addysg Gynnar | • Darpariaeth y blynyddoedd cynnar i blant teirblwydd<br>• TGCh mewn Addysg<br>• Cyflenwad Lleoedd mewn Ysgolion |
| Y Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant ar ôl 16 oed | • Y Celfyddydau a Diwylliant<br>• Addysg Uwch |
| Llywodraeth Leol a Thai | • Trosglwyddo stoc dai'r awdurdodau lleol i Berchnogaeth Gymunedol |
| Datblygu Economaidd | • Cefnogi a Datblygu Busnes<br>• Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol |

**Camau i'w cymryd gan y Pwyllgor**

6. Gwahoddir y Pwyllgor i gytuno ar y pynciau i'w hystyried a'r lleoliadau ar gyfer y cyfarfodydd ym mis Hydref a mis Rhagfyr. Mae croeso i chi awgrymu pynciau ar gyfer cyfarfodydd yn y flwyddyn newydd hefyd.

**Yr Ysgrifenyddiaeth** **Gorffennaf 2000**